



Cofnodion Cyfarfod 07-09-21 – 7.30pm

(Cyfarfod Skype)

Presennol Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Arthur Williams, Geraint Owen, Austin Roberts, Gwyn Jones a Delyth Wynne (Clerc)

Ymddiheuriadau Ceri Leeder, John Lloyd Williams a Gwenan Roberts

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU

Noder uchod.

3. DATGAN DIDDORDEB

Clwb Peldroed Merched Eglwys Bach – Cyng Gwilym.

4. COFNODION – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (06/07/21).

Cynigwyd cofnodion 06/07/21 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. MATERION YN CODI

• **Cae Chwarae:**

- Addawyd matiau rwber ar gyfer y cae chwarae ar 23/08/21 gan Dave Dudley, Arolygydd Maes Chwarae. Heb ei wneud eto 31/08/21. Roedd hyn ar ôl i breswilydd ofyn am asesiad risg ar y matiau rwber. Cyng Ceri i ddilyn hyn i fyny gyda Dave Dudley.
- Er mwyn cynnal y trac beiciau, bydd angen mwy o fagiau o gerrig (bydd Dan yn eu storio yn ei gartref) a rhai rhawiau ayyb i wirfoddolwyr i'w helpu i ail-wneud y trac o bryd i'w gilydd, yn enwedig yn y dyddiau cynnar. Cyng Ceri i gael cost am y cerrig a'r offer. Cyng Ceri i drafod gyda Dave Dudley a oes asesiad risg ar gyfer y ramp newydd ac arwyddion newydd i ddweud bod defnyddio'r ramp 'ar eich risg eich hun'. Diolchodd y Cynghorwyr i Dan am ei ymrwymiad i'r prosiect. Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch i Dan gan y Cyngor.
- Trafododd y Cynghorwyr yr angen am fwy o finiau yn y cae chwarae. Bu llawer iawn o sbwriel yno'n ddiweddar. Teimlwyd nad oedd angen rhagor o finiau ond arwyddion ar gyfer y bin cyfredol sy'n gofyn i ddefnyddwyr y parc fynd â'u sbwriel gyda nhw os yw'r bin yn llawn.



- Angen arwyddion baw cŵn. Clerc i ysgrifennu at CBSC i gael arwyddion pellach
- Mae'r fainc bicnic wedi'i gosod ar floc concriid. Mae Cyng Ceri wedi talu £20.00 i'r gosodwr ar gyfer y gwaith hwn a bydd angen ei ad-dalu.
- Derbyniwyd anfonebau gan Carwyn Evans ar gyfer y ramp – gweler yr adran Gyllid isod.

- **Toiledau'r Pentref:**

Mae Cynghorwyr Ceri a John Emlyn wedi cyfarfod â Kelly Owen a Gemma Barton-Price, Arolygydd Toiledau, CBSC. Mae CBSC yn hapus i dalu i rywun lanhau'r toiledau ddwywaith y dydd am hanner awr, awr y dydd am £9.80 yr awr. Byddai toiledau ar agor 7.00am-5.30pm, 7 diwrnod yr wythnos. Byddai CBSC yn sicrhau bod y toiledau o safon. Y Clerc i ofyn a oes hysbyseb ar gael i'w defnyddio gan CBSC. Ystyriodd y Cynghorwyr:

- beth yw rôl y Cyngor fel cyflogwr i'r person hwn?
- a allai amseroedd agor y toiledau newid? agor am 9.00am? cau yn ddiweddarach yn yr Haf, efallai 7.00pm?
- Ydyn nhw ar agor bob dydd o'r flwyddyn?

- **Mynwent y Cyngor:**

- Derbyniwyd llythyr gan Mrs E Williams ynglyn a safon y fynwent a torri gwair. Y Clerc i ymateb i Mrs Williams i ddweud bod y glaswellt yn cael ei dorri yn rheolaidd a bod darn gwyllt yn cael ei gadw yno hefyd.
- Cafwyd trafodaeth am faint mor aml mae'r gwair angen ei dorri. Dim ond un toriad yn llai ydy'r cytundeb newydd. Cyng Wendy yn dweud bod gwair wedi ei dorri heb gael ei pigo i fyny yn y ddau rhes olaf.
- Baw Ci yn y Fynwent – cafodd y Clerc ymateb gan CBSC i'w ymholiad:

"Wrth gwrs, gallwn godi rhai arwyddion dim baw ci yn y fynwent, o ran rheoli cŵn mewn mynwentydd, mae Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol Rheoli Cŵn yn nodi bod yn rhaid i gŵn fod ar dennyn mewn lleoliadau o'r fath felly byddwn yn sicrhau ein bod hefyd yn codi rhai arwyddion cŵn ar dennyn hefyd.

Yn anffodus, ni allaf helpu i ddarparu bin, mae hwn yn fater yr ymdrinnir ag ef gan Adran Ffyrdd a Chyfleusterau'r Amgylchedd, felly rwyf wedi anfon eich cais atynt a gofyn iddynt ddod yn ôl atoch yn uniongyrchol ynglŷn â'r mater hwn."

Y Clerc i ofyn am ganiatad gan yr Eglwys i roi arwyddion i ofyn i ymwelwyr gau'r giât hefyd ac hefyd i archebu arwyddion.



- **Banner y Pentref:**

Cais gan Paul Williams a hoffai gael caniatad i 'rwymo' y faner y ystod misoedd y gaeaf, i geisio cadw ei bywyd gan ei fod bellach wedi'i rhwygo. Bydd y faner dal i gael ei ostwng ar gyfer marwolaethau ac angladdau. Trafoddodd y Cynghorwyr y mater a phenderfynodd y byddai'r faner yn cael ei rhwymo neu ei thynnu i lawr y ystod misoedd y gaeaf, pan fydd y clociau'n cael eu troi. Bydd y faner y dal i gael ei hedfan ar hanner mast ar gyfer angladdau a'i hedfan ar gyfer unrhyw achlysuron arbennig. Cyng Austin i drafod gyda Paul.

- **Bwrdd Gwybodaeth y Pentref:**

Mae preswlydd wedi gofyn a ellid adnewyddu Bwrdd Gwybodaeth y Pentref yn y 'man picnic' gan fod angen rhoi sylw iddo. Credir bod CBSC wedi codi'r bwrdd yn wreiddiol.

Y Clerc i drafod gyda Thîm Gwledig CBSC ynglŷn â'r map. Y Cyngorydd Wendy i lanhau'r bwrdd ac adrodd yn ôl ar gyflwr y ffrâm bren.

- **Ffens wrth yr afon:**

Mae un o'r paneli ffensio sy'n rhannu'r afon o'r gilfan i lawr wrth yr ysgol, wedi cael ei wthio i lawr. Rhannodd Cyng John Emlyn luniau gyda'r Cynghorwyr. Cyng Austin i drafod gydag Emyr, Adran ERF, CBSC yfory am atgyfodi'r panel a thacluso'r gilfan.

- **Clwb Peldroed Merched Eglwys Bach:**

Ymholiad gan Dim Pel-droed Merched Eglwys Bach ynghylch a oes rhyw fath o gronfa ar gael i'w rhoi tuag at dreuliau'r Tim. Y Cynghorwyr i ofyn i'r Cyng Ceri ymchwilio i grantiau yn y lle cyntaf a chael rhagor o wybodath gan y tim am faint o arian sydd ei angen a'r hyn y byddent yn ei ddefnyddio ar ei gyfer. Cyng Austin i wneud ymholiadau hefyd ac yna cyfeirio Mark at gyfleoedd ariannu. Y Clerc i anfon yr e-bost at Cyng Wendy.

- **Sgip Cymunedol:**

Y Clerc yn aros am ateb gan CBSC ynglŷn â'r sgip. Os na dderbynnir ateb yn ystod y dyddiau nesaf, bydd y Clerc yn anfon e-bost arall a chopïo Cyng Austin i'r ohebiaeth.

- **Awdit 20/21:**

Dim diweddariad.

6. CYNLLUNIO

- **Cyfeirnod: 0/48693**

Ymgeisydd: Mr Tudur Roberts

Cynllun: Cais am ystafelloedd gwely ychwanegol, estyniad i'r annedd bresennol

Safle: Bryn Bach Rhandir Road Trofarth Betws Yn Rhos LL22 8BW



Dyddiad Cau: 11/08/2021

Dim sylw.

- **Cyfeirnod: 0/48700**

Ymgeisydd: Mr and Mrs Robert Shaw

Cynllun: Estyniad un llawr i gegin/ystafell fwyta er mwyn darparu'r llety angenrheidiol i ddiwallu safonau hygyrchedd o fewn yr annedd presennol

Safle: Bodlondeb Rhandir Road Eglwysbach Conwy LL22 8BW

Dyddiad Cau: 13/08/2021

Dim sylw.

- **Cyfeirnod: 0/48804**

Ymgeiswyr: Jane and Paul Parry

Datblygiad: Tystysgrif defnydd presennol ar gyfer defnyddio tir sy'n rhan o The Birches fel cwrtil preswyl

Safle: The Birches Eglwysbach Road Eglwysbach LL28 5UD

Dyddiad Cau: 08/09/2021

Dim sylw.

7. ADRODDIAD ARIANNOL

Adroddodd Cyng John Emlyn ar fedru cadw yr accounts HSBC yn agored. Popeth rwan yn gweithio. Cafodd y Cyngor Cymuned £100.00 gan HSBC am yr holl anghyfleustra. Diolchodd y Clerc i Cyng John Emlyn am ei holl waith o ddelio gyda'r mater.

Cyfredol - £9,547.88

Angladdau - £1,138.70

Cadw - £2,078.31

Taliadau Ar-lein:

Cyfredol:

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Carwyn Evans – £1,852.00 (tynnwyd £500.00 o cyfanswm yr anfoneb – talwyd yn barod - cofnodion 01/06/21)
- Iona Edwards, Cyfrifydd (Gwaith TWE 20/21 yn cynnwys 'payslips') - £60.00
- HMRC (Gorffennaf, Awst Medi 2021) - £150.00

Angladdau:

- Arwel Williams (Torri glaswellt y Fynwent 19/07/21) - £345.00
- Arwel Williams (Torri glaswellt y Fynwent 02/09/21) - £345.00



Y Clerc i wneud ad-daliad TAW diwedd blwyddyn ariannol 2021/22.

8. GOHEBIAETH

- **E-Bost: CBSC – Creu Conwy – Creu'r Sbardun:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Nodyn Briffio: ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref - Cyfarfodydd aml-leoliad:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: Un Llais Cymru – Llywodraeth Cymru Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd sector cyhoeddus Cymru:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC - Helpwch ni i lunio'r dyfodol yng Nghonwy ac ymuno â'r sgwrs!:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: Judith Leslie – Diolch: Trwsio Camfa Bryn Derw, Ffordd Gyffyllog:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC - Coginio a rhannu 2021:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC - Conwy 2025, dangoswch eich cefnogaeth...:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC - Grant bach:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021:**
Noder er gwybodaeth.
- **E-Bost: Gareth Jackson – Cais Rhyddid Gwybodaeth:**
Y Clerc i ymateb yn ôl i'r cais.
- **E-Bost: CBSC - Grant Democratiaeth Ddigidol Llywodraeth:**
Y Clerc i wneud cais am gyfarfodydd Zoom - £14.39 o fis Hydref ymlaen.
- **Llythyr: Mrs E Williams – Mynwent y Llan:**
Trafodwyd uchod.



9. UNRHYW FATER ARALL

- Cartrefi Conwy newydd werthu un ty yn y pentref. Be ydy eu polisi nhw am y tai yma? Y Clerc i yrru llythyr yn gofyn am esboniad o'u polisi.
- Cynllun Llifogydd – Cyng Austin – CBSC wedi debyn grant i wneud cynllun atal llifogydd yn Heol Ffynnon Asa. Dim diweddariad arall ar hyn o bryd.
- Ceir yn parcio wrth adeilad newydd Bodnant wrth y wal newydd, a hefyd ar y tro tu allan i'r bwthyn. Y Clerc i gysylltu efo adran Priffyrdd, CBSC ac R L Davies.
- Ffordd Gyfflog – Penisarwaun at Gyfflog - tyllau yn y ffordd.
- Ffordd Wanklyn – tyllau yn y ffordd.

10. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

05/10/21

02/11/21

07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 9.29 o'r gloch.